Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Hiraethog

Llwybrau cronfa ddŵr
# Alwen
Reservoir trails



## Cylchdaith Ysblennydd

### Croeso i Lwybr Alwen

**Gall cerddwyr a beicwyr mynydd fwynhau'r llwybr cylchol 7 milltir / 11.5 cilomedr hwn sy'n hawdd i'w ddilyn ac sy'n mynd o amgylch Cronfa Alwen.**

Mae'r llwybr, sydd wedi ei farcio, yn mynd trwy goedwig, gweundir ac ar hyd ymyl y dŵr ar lwybrau pwrpasol a llwybrau coedwig – gyda golygfeydd cyfnewidiol ar hyd y gronfa a thuag at fynyddoedd Eryri.

Mae chwe phanel darluniadol ar hyd y llwybr sy'n egluro'r bywyd gwyllt, y diwylliant a'r chwedlau sy'n gysylltiedig â'r dirwedd fynyddig hanesyddol hon.

Os byddai'n well gennych daith gerdded hirach, bydd Llwybr y Ddau Lyn yn mynd â chi o amgylch Cronfeydd Alwen a Brenig.




Atgynhyrchir y map hwn o Ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi Hawlfraint y Goron. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2016 Arolwg Ordnans 100019741. 2016
This map is based upon Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the controller of Her Majesty's Stationery Office © Crown copyright and database rights 2016 Ordnance Survey 100019741. 2016

### Llwybr Alwen | Alwen Trail

Dilynwch yr arwyddion yma
Follow these waymarkers

| Cymedrol | Moderate |
|---|---|
| Pellter: 7 milltir/11.5km | Distance: 7 miles/11.5km |
| Amser: **Beicwyr** 1½-2 awr **Cerddwyr** 2½-3½ awr | Time: **Cyclists** 1½-2 hours **Walkers** 2½-3½ hours |
| UCHAFBWYNTIAU: **Llwybr addas i deuluoedd o amgylch y gronfa, a chyfle i ganfod coedwigoedd a llên gwerin.** | HIGHLIGHTS: **A family friendly trail around the reservoir, with forests and folklore to discover.** |
| **Beicwyr**: yn wrthglocwedd **Cerddwyr**: yn glocwedd | **Cyclists**: anti-clockwise **Walkers**: clockwise |

### Llwybr y Ddau Lyn | Two Lakes Trail

Dilynwch yr arwyddion yma
Follow these waymarkers

| Cymedrol | Moderate |
|---|---|
| Pellter: 14 milltir/22.5km | Distance: 14 miles/22.5km |
| Amser: **Beicwyr** 3-4 awr **Cerddwyr** 4-5 awr | Time: **Cyclists** 3-4 hours **Walkers** 4-5 hours |
| UCHAFBWYNTIAU: **Cyfle i fwynhau'r golygfeydd agored ac amrywiol o amgylch Llyn Brenig a Chronfa Alwen.** | HIGHLIGHTS: **A chance to enjoy the open views and diverse scenery around both Llyn Brenig and the Alwen Reservoir.** |
| **Beicwyr**: yn wrthglocwedd **Cerddwyr**: yn glocwedd | **Cyclists**: anti-clockwise **Walkers**: clockwise |

Mae llên gwerin leol yn sôn am fuwch frech chwedlonol a chanddi gyflenwad diddiwedd o laeth



Local folklore tells of a fairy cow with an endless supply of milk.



## A Spectacular Circuit

### Welcome to the Alwen trail

**Walkers and mountain bikers can enjoy this easy-to-follow 7 mile / 11.5 kilometre circular route around the Alwen Reservoir.**

The waymarked trail runs through forest, moorland and along the water's edge on surfaced paths and forestry tracks – with ever-changing views across the reservoir and to the mountains of Snowdonia.

Six illustrated panels around the route explore the wildlife, culture and folk tales of this historic upland landscape.

If you prefer a longer walk the Two Lakes Trail will take you round both the Alwen and Brenig Reservoirs.

**ALLAN AR Y LLWYBR**

**Byddwch yn ddiogel:**

- Gall y tywydd newid yn sydyn yn y fan yma Gwisgwch esgidiau synhwyrol a dewch â dillad cynnes, dillad glaw, bwyd a diod gyda chi
- NID yw ffonau symudol yn gweithio ar y rhan fwyaf o'r llwybrau hyn

**GWYBODAETH AM Y LLWYBRAU**

- Ceir giatiau mochyn, camfa a rhwystrau ar hyd y llwybrau. Efallai y bydd rhai defnyddwyr angen allweddi RADAR i fynd heibio i'r rhwystrau hyn
- Llwybr cyd-ddefnyddio. Dylai cerddwyr gychwyn cerdded gyda'r cloc, gan groesi argae Alwen

**CYFLEUSTERAU**

- Mae Canolfan Ymwelwyr Brenig a'r caffi ar agor bob diwrnod ac eithrio Dydd Nadolig, Gŵyl San Steffan a Dydd Calan (2½ milltir / 3 cilomedr i'r gogledd ar y B4501)
- Ni cheir cyfleusterau ar Lwybr Alwen

**OUT ON THE TRAIL**

**Be safe:**

- The weather can change suddenly up here. Wear sensible shoes or boots and carry warm clothing, waterproofs, food and drink
- Mobile phones do NOT work on most sections of these trails

**TRAIL INFORMATION**

- There are kissing gates, a step-over stile and barriers along the trails. RADAR keys may be required by some users to bypass barriers
- Shared-use trail. Walkers to start the trail in a clockwise direction, crossing the Alwen dam

**FACILITIES**

- The Brenig Visitor Centre and café is open every day except Christmas Day, Boxing Day and New Year's Day (2½ miles/3km north on the B4501)
- There are no facilities on the Alwen Trail



LAWRLWYTHWCH EIN **HAPIAU DI-DÂL** ar gyfer Android ac iPhone | DOWNLOAD OUR **FREE APPS** for Android and iPhone

CYMRU | WALES **PlacesToGo®**
I ganfod lleoedd eraill ardderchog CNC y gellir ymweld â hwy yng Nghymru.
To find other great NRW places to visit in Wales.

CYMRU | WALES **PlaceTales®**
I ganfod nodweddion hynod ddifyr yng nghoedwigoedd CNC a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol.
To discover fascinating features in NRW forests and National Nature Reserves.

www.cyfoethnaturiol.cymru
www.naturalresources.wales
0300 065 3000

hygyrch / accessible
parcio / parking
gwybodaeth / information
toiledau / toilets
llwybrau cerdded / walking trails
lle picnic / picnic area
llwybrau beicio mynydd / mountain bike trails

mbwales bmcymru
sir ddinbych denbighshire County Council
Conwy — Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy County Borough Council
Dŵr Cymru Welsh Water
natur — Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru / North Wales Wildlife Trust
Noddir gan Lywodraeth Cymru / Sponsored by Welsh Government